

SYNIADAU AR GYFER PALASAU HWYL DIGIDOL





Syniadau ar gyfer Palasau Hwyl Digidol

Mae'r Crëwr ac eiriolwr Palasau Hwyl, Lorena Hodgson, wedi rhoi llwyth o syniadau gwych at ei gilydd i ni eu rhannu.

Mae Lorena wedi gweithio ym maes TG ers dros 30 mlynedd ac yn defnyddio rhai o'r syniadau hyn o ddydd i ddydd wrth redeg [Red Barn Creative](#), sefydliad curadu/cynhyrchu creadigol sy'n creu prosiectau celf a threftadaeth gyda chymuned wrth eu gwraidd. Mae Lorena yn ysgrifennu llawer o restrï pethau diddorol i roi cynnig arnynt hefyd, felly mae rhai o'r pethau hyn heb gael eu profi, ond yn edrych yn ddifyr!

Rhowch gynnig arni, dechreuwch Chwyldro (digidol) Bychan o'ch cartref. Dysgwch sgiliau newydd, pasiwch nhw ymlaen...

Ni waeth p'un a ydych ar eich pen eich hun, neu gyda ffrind neu eich teulu; ni waeth p'un a ydych mewn cysylltiad â phobl leol ai beidio, gallwch greu Palas Hwyl o hyd. Gallwch ddod o hyd i'ch cymuned mewn nifer mawr o leoedd, heb adael eich cartref. Gallwch ddod o hyd i gymuned o bobl sy'n rhannu'r un diddordebau ar-lein, efallai y byddant yn lleol neu ar ben draw y byd.

Gallwch wneud yr un arddangosiad o hyd neu ddangos eich sgil benodol chi y byddech wedi mynd â hi at Balas Hwyl, ond yn eich cartref - ac yna defnyddio rhai o'r offer hyn i'w cofnodi a'i rhannu'n gyhoeddus, neu gyda grwpiau penodol ar gyfryngau cymdeithasol.

Awgrymiad: Ar Twitter, chwiliwch am @FunPalaces i weld pwy maent yn eu dilyn, a dilynwch y bobl hynny sydd o ddiddordeb i chi hefyd. Yna gallwch weld pwy sy'n dilyn nhw a dilyn y rhai sy'n swnio'n ddiddorol. Dewiswch yn eang, gallwch bob amser ddad-ddilyn nhw.

Chwiliwch am amgueddfeydd, orielau celf, llyfrgelloedd a mannau cyhoeddus eraill hefyd - maent wedi bod wrthi'n cynhyrchu cynnwys ar-lein yn ystod y cyfnod clo, felly byddwch yn cael nifer mawr o syniadau yno. Bydd hyn yn rhoi rhai syniadau a linciau diddorol i chi eu dilyn.



Crëwch boster i'w roi yn eich ffenest i hysbysebu eich Palas Hwyl. Ar ôl i chi gofrestru eich Palas Hwyl, gallwch gael rhai [posterï parod yma](#) ond os ydych eisiau creu eich rhai eich hun, a hefyd gwneud baneri ar gyfer Facebook a phostiadau i fynd ar Twitter ac Instagram, gallwch ddefnyddio [Canva](#). Mae'n dod gyda thiwtorial byr ar ddylunio a lluo o elfennau a thempledi er mwyn i chi gychwyn arni. Gallwch uwchlwytho eich gwaith eich hun hefyd.

I olygu lluniau mae [GIMP](#) yn offeryn golygu pwerus – mae fel Photoshop, ond am ddim! Mae [InkScape](#) yn rhaglen ffynhonnell agored (ar gael am ddim) sy'n debyg i InDesign.

Efallai y gallech ddod ynghyd gyda nifer o bobl ar-lein, efallai y rhai rydych wedi cwrdd â nhw trwy [Grŵp Cyd-gymorth](#) yn eich cymdogaeth, a sefydlu llwybr i bobl sy'n mynd am dro bob dydd? Gallech chi i gyd greu cod QR i'w roi yn eich ffenestri a chreu negeseuon neu eu hanfon at wefan.

Mae <https://www.the-qrcode-generator.com/> yn creu'r codau. Gallwch argraffu nhw a'u rhoi yn eich ffenest, yna gweld pwy sy'n dod heibio i fwrw golwg arnynt. Neu beth am argraffu nhw fel patrwm brodwaith, crosio neu wau?

I ychwanegu lliwiau bywiog a'ch logo eich hun, rhowch gynnig ar <https://www.qrcode-monkey.com>

I'r rhai a all fynd allan, efallai y gallech greu taith o gwmpas eich strydoedd? Gallech ei hyrwyddo ar wefannau eich grwpiau lleol neu greu cod QR i'w ddarganfod wrth iddynt gerdded o gwmpas.





Geogelcio oedd un o'r pethau cyntaf y rhois gynnig arno ar y rhyngwrwd. Y syniad yw cuddio celc bach (blwch plastig bach fel arfer) a rhoi cliwiau ar-lein i'w ddarganfod, gan ddefnyddio offer GPS. Ewch i'w gwefan <https://www.geocaching.com/play> i gael mwy o wybodaeth ac i gofrestru.

Diolch i'r tîm [Diwrnodau Treftadaeth Agored](#) am y ddau nesaf ...

Dydyn ni ddim wedi trio hwn eto, ond dyma ddolen i greu cwest!

<https://academy.izi.travel/help/production/how-to-create-a-quest/>

Beth am greu ystafell ddianc rithwir yn Google Docs? Dyma fideo YouTube sy'n esbonio sut:

<https://www.youtube.com/watch?v=xLzbPGF4TzY>

Mae'r gêm Pokemon Go yn eich annog i gerdded o gwmpas yn cipio creaduriaid rhithwir, ac mae fersiwn Jurassic World ar gael hefyd. (Gallwch ddod o hyd iddynt ar Google Play.) Ewch â'r teulu cyfan allan, tynnwch luniau o'ch creaduriaid, postiwch nhw ar-lein a rhannwch nhw â phobl sy'n cerdded heibio.

Mae Minecraft yn ffeffryn ar gyfer cysylltiadau digidol. Dyma esboniad o sut mae wedi cael ei ddefnyddio mewn Amgueddfeydd, gan gynnwys geiriau gan Adam Clarke, sy'n feistr wrth greu bydoedd i bobl chwilfrydig chwarae ynddynt a dysgu ohonynt.

<https://www.museumnext.com/article/minecrafting-the-museum/>

Rhieni, gofynnwch i'ch plant esbonio Minecraft, a gweld a allant eich dysgu chi sut i'w chwarae. Efallai bod rhieni eraill yr ydych yn eu gweld dim ond wrth glwydi'r ysgol y gallech eu herio - adeiladu eich tŷ, adeiladu tŷ eich nain a thaid! (Gweler llyfr Adam *Minecraft Life Hacks Lab for Kids* am fwy o syniadau.)

1000° BABELASU HWY! Bychain

Dysgais gan Adam sut i roi llun mewn map Minecraft. Ychwanegais rywfaint o waith celf a chod QR at y dudalen ar y wefan sy'n cynnwys y gwaith celf. Rwy'n hapus iawn gyda fy hun!



Crëwch bos o hoff lun a rhanwch ef gyda chyfeillion a theulu - heriwch nhw i wneud y fersiwn mawr. <https://www.jigsawplanet.com>

Dyma ddolen i bos o'r logo Palasau Hwyl:

<https://www.jigsawplanet.com/?rc=play&pid=349beb479400>





Dewch o hyd i Google Arts and Culture yn storfa apiau eich ffôn. Crëwch weithiau celf newydd o'ch lluniau, yn null artistiaid amrywiol - anfonwch nhw at eich ffrindiau, a gweld os gallant adnabod y llun gwreiddiol.

Dyma set ddefnyddiol o fideos os ydych yn meddwl yn fwy pendant am gynhyrchu rhywbeth ar-lein i'w ffrydio'n fyw i'ch grwpiau lleol, cymdogion neu ffrind i lawr yr heol sy'n gwarchod ei hun: <https://weareunlimited.org.uk/want-to-know-more-about-live-streaming/>

Mae cysylltu ag eraill ar-lein yn bosib trwy sianelau eraill yn hytrach na dim ond y cyfryngau cymdeithasol arferol. Mae Discord yn arf gwych ar gyfer cyfathrebu ar ffurf gyrru negeseuon, ond mae'n dda ar gyfer sgwrsio fideo a rhannu gifs gwirion hefyd! Yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan gêmwyr, mae Discord yn awyddus i rannu ei offer llawn hwyl a hawdd ei ddefnyddio â phawb, bwrw golwg arno www.discord.gg (gg = "good game" neges a anfonir at bobl eraill wrth chwarae gemau wedi'u rhwydweithio). Mae gweinyddion cyhoeddus y gallwch ymuno â nhw i ddod o hyd i bobl sydd â'r un diddordebau, neu gallwch sefydlu eich un eich hun i gysylltu â ffrindiau a theulu - fel fersiwn mwy cŵl o WhatsApp gyda mwy o nodweddion.

Gellir defnyddio offer busnes i gysylltu ag eraill mewn ffordd chwareus:

Mae offeryn cyflwyno, Mentimeter yn caniatáu cwisiau, sleidiau etc a gall y gynulleidfa ymateb ar eu ffonau symudol - cynrychiolir atebion yn weledol mewn amser real. Gallwch ei ddefnyddio ar y cyd gyda rhannu sgriniau - e.e. yn ystod sgwrs fideo Zoom neu Discord.

<https://www.mentimeter.com/>

Mae <https://www.poll Everywhere.com/> yn wasanaeth tebyg



Mae <https://www.sli.do/> yn galluogi'r gynulleidfa i gymryd rhan, felly unwaith eto gallwch redeg rhywbeth ar-lein ac annog pobl i gymryd rhan!

Gobeithiwn fod hyn wedi rhoi rhai syniadau i chi o ran creu cysylltiadau ar-lein a rhannu eich angerdd a sgiliau ac ar yr un pryd efallai dysgu rhywbeth newydd eich hun.

Gall cysylltu â phobl eraill ar-lein fod yn llawer mwy gwobrwyol, efallai, nag y byddech chi'n tybio, a gallwch ddod o hyd i lawer mwy o bobl i fynd yn ffrindiau gyda nhw nag y byddech yn disgwyl. Rwy'n ffrindiau o hyd gyda phobl y gwnes i gwrdd â nhw ar-lein bron 20 mlynedd yn ôl, a 'dw i dal heb gwrdd â'r rha